

Dyfodiaith





Paul Eastwood



One who listens, with a hundred ears

I'm looking for clues amidst the unfurling musings of the central voice in *Tafod Dadweirllled* (2018). As I listen intently to the narration, I feel in turn receptive, frustrated, deeply connected and then lost again as I try to understand the work. Instead, I let the flow of words and images overtake me, to try to feel the work, to follow its trails. Google Translate is unable to help me on this journey, there is no setting for the ancient Brythonic language yet. Even if it existed Eastwood is in search of the unfamiliar, or shall I say the unknown.

It doesn't matter if you don't understand

As I view *Iaith Bwystron* (2019) I am also overwhelmed by hundreds of ears and tongues. In the same way that everywhere we are being listened to by our friends Siri or Alexa. In recent years, the technology of listening in the form of speech recognition and natural language processing has developed exponentially. With digital assistance comes constant surveillance as these technologies attempt to capture and mimic the deep powers of our brain, our different languages, vocabularies and intonations, in order to get closer to the processes of the human mind and to monetise on this relationship of dependence. Just as we are surrounded by digital ears, waiting for our prompts to speak to us, Paul Eastwood looks at the fundamentals of communication and cognition: what are we saying and who is listening?

Eastwood is not feeding us an easy answer, his work offers a series of propositions in a variety of languages and linguistic registers, his speculative Brythonic language uses alliterations, repetitions, homonyms and other figures of speech. Neither a linguist nor a self-proclaimed writer, by questioning both the role of the listener and the message, he approaches his work in the manner of a translator of poetics and forms, working between language(s), drawing, sculpture and video. His work crunches the complex semantic mesh of image and language, sound and writing, as tools for communication, exploring the origin and meaning of signs and our capacity to communicate by using them.

Knotted words that will never be complete

Both the sound piece *Tafod Dadweirllled* and its extension into the ambitious video work *Iaith Bwystron* tackle the rudiments of communication by employing a series of shifting registers mimicking how language is in constant evolution or metamorphosis as "Tafod Dadweirllled / a tongue that changes its shape often" points to. Just as translation comes from the Latin root 'to carry over', Eastwood plays with transferring words and transplanting visuals in a temporary series of placements. This can be seen most clearly in the metaphor of an overwhelming flock of ears in *Iaith Bwystron*, rising and falling around us, accompanied by a deep audio monologue. Tongues slither like slugs across the screen. Language in the form of letters literally falls and wraps around bones in a titillating mix of audio-visual and sonic stimuli. Written and oral language takes a physical presence, embodying the complex processes of cognition.

Artificial intelligence tries to close the gap between the codes of language and those of technology. That is by bringing deep mind technology — which was established by the human mind — closer to the neural networks of the human brain, whose uncertain origin is at the heart of linguistics. Eastwood's work delves deep into the conundrum of language as a common thread or code and as a unique human faculty, moving beyond linguistic barriers in order to take us on an expressive journey exploring the roots of the Welsh language. He moves through the language family tree from Indo-European, Proto-Celtic, through the Brythonic branch including Cornish, Breton and Ancient Welsh but also the Goidelic branch including Celtic, Old Irish and Manx, even using Latin terminology to mine concepts and poetics. By exploring extinct or obscure vocabulary, Eastwood is looking for what can be found in translation, asking what languages speak to us.

I want to see the future when I speak

Both *Tafod Dadweirled* and *Iaith Bwystron* do not focus solely on the legacy of the Brythonic or even current condition of the Welsh language. Following his investigations in *iwtopia* (2016), a work which reflected on what stories to leave for future generations if Welsh were to become extinct, Eastwood continues to explore how language can simultaneously speak to the past, present and to the future. In an attempt to address current or future obsolescence, he asks what codes can help us understand how to speak to forthcoming human, artificial or even extra-terrestrial intelligence?

Eastwood therefore moves back and forth between past, present and future in his work to think beyond historical or synchronic conceptions of language. The marks in his work explore broadly the relationship of language and drawings, signs and lines. In an acknowledgment that 'language largely composes and segments time'¹ Eastwood shakes up our linguistic and temporal references, questioning linear and Western-centric approaches to language, space and time.

Language of the land. Language of space. Language without words

There is a strong reference to sculpture in the various elements employed in the film. Eastwood uses the building blocks of language in a physical way, the 'carrying over' or "transporting words" (*Dyfodiaith*) and languages, as written and oral language falls or wraps around bones in different configurations. His earlier work *Segrgair* (2017) pointed to concrete poetry, where words tumbled and accumulated on the screen as though pulled down through the weight of history, an image which is re-employed in the falling ears in *Iaith Bwystron*. By helping the viewer to visualise its foundations he points to the complexity of language as a subject matter, foundations which are so intrinsically bound with cultural history.

The sculptural references also help locate language back in the physical world. Eastwood's world is geographically manifest in the form of a heterotopian island, "An island that cries out". He mines the semantic gap between language and visuals, which we are invited as a listener or viewer to inhabit and feel. We empathise with the narrator sensing a "mouthful of language", which seem to spill out uncontrolled; tongues creep across the screen "A skinned tongue on display, for all to see." Voice is "Attached to the tongue. Attached to other words." Used words accumulate like bones, "Skeletal outlines. Follow structures of writing." The narrator seems to alternate between being physically overwhelmed yet wanting to see or experience language's boundless possibilities.

Writing words for the gaps between words

Language offers an indefinite combination of words. As an open-ended system Eastwood explores how nothing can be repeated, it can only be said anew. "Double — a word in two pieces"; "Message to the unknown. Message for the unknown." In parallel, he explores how the semantic gap between language and visuals is the space of poetics, which offers infinite potential as what is interesting is not 'the translation of content but poetics'². He researches the slippages between one language and the next, between signs, finding nexus or connections and playing with similes. The figure perhaps, of "A rescuer [without a tongue] [who] is walking, one that nurtures the land, sowing syllables from pollen-sacs." As language is a limitless territory, so are poetics.

Paul Eastwood delves deep into the flesh of language by peeling back the semantic layers, flaying its skin to explore lyrical associations. "Arwynbedd, Ar Wyneb Bedd", a surface area becomes the face of the grave. There is a certain violence in the act of translation, violence which has been referred to as 'the violence of proper names'³. Eastwood acknowledges this, the words in his universe are "Blended. Bashed together... parasite words." He bleakly points to the difference between failed bodies and language: "When the city fell. When we fell together. When a language falls and there's nothing left." Linguistic violence engenders a radical rethinking of hierarchies.

Interchangeable history. Regenerate the voice. Taking language back

Eastwood has not chosen an easy subject. Language is so tied to culture and history that any deconstruction can be seen as an act of betrayal to the original⁴. If you start prising it apart, the mesh starts to unravel. Yet he invites us to lose ourselves and our coordinates amidst ruins and otherworldly islands with the aim of perhaps finding a way forward, by invigorating our languages and cultures, or to give us foresight on how to envision the overwhelming future.

Emily Butler

1 George Steiner, 'After Babel', Oxford University Press, 1998, p.136

2 Edouard Glissant, 'Translating the relationship of Languages', interview with Luigia Pattano, 2011, <https://mondesfrancophones.com/dossiers/edouard-glissant/traduire-la-relation-des-langues-un-entretien-avec-edouard-glissant/>

3 Jacques Derrida, 'Of Grammatology', John Hopkins University Press, Baltimore, 1997, p.107

4 Paul Ricoeur, 'On translation', Routledge, London, 2006





Dyfodiaith yr oes a fu: darlun bras o Gymraeg arallfydol

Rhan annatod o arddangosfa Dyfodiaith Paul Eastwood yw ystyried sut yr ydym, sut y gwnaethom a sut y gallwn fod yn cyfathrebu drwy'r Gymraeg. Wrth grwydro'r gofod arddangos yn Chapter, rydym yn clywed fersiynau amrywiol o'r Gymraeg, rydym yn cael ein hannog i wrando, i glywed sŵn ac i deimlo rhythmâu iaith sy'n estron ond eto'n gyfarwydd. Fodd bynnag, mae gweld geiriau — gweld trefn y llythrennau, gweld eu siâp, ystyried sut mae eu sillafu yn hytrach na'u hynganu — yn rhan yr un mor bwysig o ddeall a dehongli iaith. Cyfrwng i gyfathrebu — mewn amryw ffyrd — yw iaith.

Cama Dyfodiaith i fydd ffuglen wyddonol, gan edrych, fel y gwna llenyddiaeth a ffilmiau'r genre, ar archwilio'r hyn all fod yn bosib. Amliga Walter E. Meyers: 'Communication, with language as its chief discipline, is centrally important to an enormous portion of science fiction, and crucial to its understanding.'¹ Mae darluniau llenorion o gymeriadau'n teithio i fydoedd arallfydol neu i amseroedd pell i fethu cyfathrebu gyda'r bobl maent yn eu cyfarfod yno yn thema gyfarwydd, ac mae dod ar draws iaith arallfydol neu ddyfodolaidd, fel y gwelwn, yn rhan bwysig o'r profiad hwnnw.

Mae cyflwyno iaith leiafrifol i gynulleidfa nad yw wedi arfer â'i chlywed a chwarae gyda chyfathrebu drwy iaith sy'n datblygu ac esblygu o hyd ac o hyd [fel y mae ieithoedd yn eu gwneud] yn rhan annatod o Dyfodiaith fel prosiect. Cwestiynir hefyd beth sy'n digwydd pan nad yw'r gwrando'r neu'r darllenyydd yn deall yr iaith dan sylw. Mae clustiau Dyfodiaith yn cwympo gyda chlep i'r llawr a'r tafod yn ymlusgo o fan i fan fel milwr wedi'i anafu ar faes y gad yn ymbil am help. Dyma, yn y darn hwn, ystyried sut orau i ddeall a dehongli annealltwriaeth. A oes yna ddiben o gwbl o iaith nad oes neb yn eu deall a sut yr ydym yn ymateb i'r annealltwriaeth yna?

Rhwng dealltwriaeth ac annealltwriaeth

Gyda chyfarpar cyfieithu ac apiau amrywiol, mae ymdrechion lu i bontio'r bwlc'h a gwneud digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn hygyrch i rai nad ydynt yn ei medru. Mewn cynhadledd am ieithoedd Celtaidd cefais fy mhrofiad cyntaf o ddefnyddio teclyn o'r fath, a chanfod fy hun yn gwyllo siaradwr Gwyddelig a bod rhwng dealltwriaeth ac annealltwriaeth. Roeddwn yn gwisgo'r allwedd angenreheidol i ddeall y sgwrs — gyda llais cyfieithydd medrus yn sibrwd yn fy nghlust drwy'r alice band beniwaered am fy mhen — ond yna, wrth ddibynnu ar y cyfieithiad, roeddwn yn colli hud yr iaith wreiddiol.

Er fy mod wedi arfer a'u gweld mewn cyfarfodydd a digwyddiadau, roedd gwisgo cyfarpar o'r fath yn brofiad anghysurus. Nid yn unig fe'm hwynebwyd gyda phroblemau technegol dirifedi ('Os na allwch fy nghlywed, codwch eich llaw!'), ond roedd y weithred ymarferol o wisgo'r ddyfais yn anghyfforddus. Dyma declyn fu unwaith yn ddyfodolaidd, yn ddyfeisgar. Yn syniad craff gan rywun feddyliodd; 'Aha! Dyma wahodd eraill i'n byd!' Dyma declyn bydd, un dydd, yn orffenolaidd ac yn rhan o arddangosfa mewn amgueddfa: 'Stuff it, we don't want them to understand.' Ond yn ogystal â bod yn allwedd angenreheidol er mwyn deall y sgwrs, fe amlwgwyd fy mod i, a llond llaw o bobol arall, yn wahanol. Roedd yn arwydd amlwg o'n hannealltwriaeth a'n haralledd.

Yn ystod y sgwrs, tynnais y cyfarpar. Gwrandoais ar eiriau'r Wyddleg yn llithro o wefusau'r siaradwr ac esgus fy mod i'n deall cynnwys ei ddarllith. Gwrandoais yn astud ar bob gair yn ffurfio brawddegau, ar y siaradwr yn pwysom drymach ar ambell air nag un arall. Teimlais ei angerdd, ei siom, ac ar adegau, ei lawenydd pur wrth i bethau wella. Edrychais, yn ogystal, ar eiriau ganddo ar y PwyntPwer anferth ar y sgrin o'm blaenau. Roeddent wedi'u hatalnod i'n debyg i'r Gymraeg — atalnod llawn, coma, ambell gollnod. Roedd hi'n iaith nad oeddwn yn ei deall... ond roeddwn yn gallu ei chlywed, ei theimlo a'i gwerthfawrogi.

A dyma arwain at y cwestiwn nesaf, oes rhaid i ni ddeall bob dim, ac ydyw hi'n bryd derbyn bod 'na bethau yn y byd a thu hwnt na fedrwn fyth eu deall?

Diffodd y swtsh

Nid oes lle yn y darn hwn i fynegi beth yn union yw iaith. Nid dyna fy arbenigedd chwaith, a bosib nad oes modd cynnig diffiniad pendant o gwbl. Fodd bynnag, dyma archwilio themâu Dyfodiaith, a'i gymharu â thestunau a themâu ffuglen wyddonol, a'i ddisgrifio fel profiad sy'n pontio'r traddodiad llafar a'r byd technolegol sydd ohoni.

Wrth adolygu *Segrgrair*, arddangosfa flaenorol Paul Eastwood, noda Ceridwen Lloyd Morgan: 'To my ear, segrair thus evokes something precious from the past, something to respect and handle with care, and, significantly, or no longer puts to its intended use.'² Roedd cyflwyno iaith a chafodd ei ddarganfod mewn adfaill hen amgueddfa'n greiddiol i syniadaeth *Segrgrair*. Mae Dyfodiaith, i'r gwrthwyneb, yn astudiaeth o'r hyn all fod yn dod i law, yn hytrach na gweddillion rhywbeth sydd wedi darfod. 'Mae dyfodiaith yn cynnig y cyfle i feddwl trwy ysgrifennu/ymchwilio i hanesion amgen am iaith, hunaniaith a diwylliant — trwy ddefnyddio geiriau anarferedig, sillafiadau amgen ac archwilio etymoleg yr iaith Gymraeg,' medd yr artist ei hun.³

Wrth ystyried cyfathrebu arallfydol mewn ffuglen wyddonol, noda Walter E. Meyers:

The science-fiction writer frequently invents both message and medium. The conversations of his characters may not use lips and larynxes; they may not even use sound waves. What they do use is the present subject — the different media, or channels, science-fiction writers have employed whenever their stories present an intelligent extraterrestrial being.⁴

Mae modd, drwy dechnoleg — a'r profiad lled-rithiol o fod yn sgwrsio drwy gyfryngau amgen — sgwrsio heb organau dynol a dyma gyfleo datblygiad y cyfryngau llafar sydd ar dddod yn y dyfodol. Beth yw'r norm erbyn hyn a beth fydd y norm mewn canrifedd i dddod? Ai drwy hashnodau'n unig — #dyfodiaith — y byddwn yn cyfathrebu?

Amliga Lloyd Morgan hefyd fod y defnydd o oleuadau neon a fideo yn dechneg ddiddorol yn *Segrgrair*, gan amligu: 'Switch off the electricity, and the screen goes dark.' Yn yr un modd, gellid diffodd Dyfodiaith drwy wasgu botwm. Dyma'r sain a'r sgrin yn diflannu'n llwyr a ninnau'n sefyll mewn tywyllwch, mewn tawelwch. Er y gallwn droi pob dim ymlaen eto, gallwn gwestiynu pa mor fregus yw bodolaeth byd sy'n cael ei gadw ar gof cyfrifiadurol. Fel y dengys testunau ôl-apocalypptaidd, gellid myfyrio am yr hyn sydd wedi'i golli a'r hyn a lwyddwyd i'w gadw. Gyda chofnodion digidol ac electronig, mor hawdd yw colli'r cyfan pan eith rhywbeth o'i le. Fodd bynnag, yn yr un modd, teflir papurach i'r tân i losgi'n llwch, ac mae geirfa gyfan sydd ar gof a chadw unigolyn yn diflannu gydag e neu hi unwaith iddo neu iddi farw... oes modd ei hatgyfodi wrth bwytho pytiau at ei gilydd, ac oes yna swtsh a ellir ei wasgu i 'gofio' pob dim eto?

Drysu er mwyn deall

Wrth edrych ar gymeriadau arallfydol a'u hieithoedd mewn ffuglen wyddonol, noda Ria Cheyne bod arallfydwr heb iaith gyfystyr ag anifeiliaid yn unig. 'Aliens without an identifiable language (or language substitute, such as telepathy) are either mysterious and unknowable [...] or uninteresting, the alien equivalent of sheep or cattle.'⁶ Er y gellid dadlau bod gan anifeiliaid ei hiaith eu hunain, sylwir ein bod yn barod i ddibrisiau profiadau ieithoedd nad ydynt yn eu deall. Mae hi'n rhy hawdd, ar adegau, i roi'r gorau i gyfathrebu yn y cyd-destun hwnnw.

Ond beth am y cymeriadau arallfydol sy'n ceisio'u gorau i gyfathrebu, er gwaethaf yr heriau ieithyddol? Gellid, fel a welwyd wrth i Ifan Powel gyrraedd Cymru'r dyfodol yn Wythnos yng Nghymru Fydd fod clywed ei iaith ei hun yn gysur iddo o fewn byd anghyfarwydd. Dywed iddo 'siarad er mwyn clywed fy llais fy hun yn fwy na heb, yr unig beth a fyddai'n gyfarwydd imi yn yr oes ddiarth hon.'⁷ Pwysleisir bod y Gymraeg wedi datblygu yn 2033. Wrth edrych ar y Beibl ger ei wely, dywed Ifan: 'Er fy syndod, yr oedd mewn Cymraeg diweddar — yn wir, mewn Cymraeg mwy diweddar na'm Cymraeg i fy hun — ac yn rhwydd iawn i'w ddarllen.'⁸ Fodd bynnag, ni ddarlunni'r gwahaniaethau ieithyddol yn yr enghraifft hon, ond yn aml gwneir ymdrech i bwysleisio gwahaniaethau ieithyddol mewn testun.

In texts where the principal language is English, alien difference is often demonstrated by clusters of consonants, the letter q not followed by the letter u, the use of apostrophes not as grammatical markers but to indicate a click or whistle, and the use of characters outside the English alphabet.⁹

Bosib ei bod hi'n haws gwneud i iaith edrych yn wahanol ar dudalen. Gall ambell i acen annisgwyl neu ddidolnod ddynodi iaith ddeieithr. I ddarllenwyr cyfoes, mae gweld K, X neu Z yn y Gymraeg yn edrych yn rhyfedd, er y byddai ambell un sy'n fwy hyddysg mewn testunau canoloesol yn gweld ambell lythyren anghyfarwydd i ni heddiw yn eu britho. Mae 'Wackffaral' fel enw ar ddinas ar y lleuad yng ngohebiaeth Syr Meurig Grynsŵth yn enghraifft o hyn. Yn ogystal â hynny, yr hyn sy'n taro darllenyydd a dry at lythyron Syr Meurig o'r lleuad yw elfen wrthgyferbyniol ystyron yr iaith arallfydol i gymharu â'r Gymraeg. Cyfeiriant at y ddaear fel 'Belasco', sy'n cyfieithu'n haul y nos,¹⁰ gan gyfeirio yna at rywun fyddai'n 'lloerig' yn y Gymraeg, fel 'Bellas Croniga'.¹¹ Dadansodda Syr Meurig y gwahaniaethau hyn fel y rhagdybiaethau sydd gan gymdeithas y lleuad o'r ddaear, ac i'r gwrthwyneb: 'Rhyfedd y fath effaith sydd gan y naill fydd ar y llall, a rhyfedd iawn fod y naill fydd yn meddwl mor gyfeiliornus am drigolion ei gilydd'.¹² Noda Syr Meurig ei fod yn 'adnabod y llythrennau'¹³ ac mai 'llaferiaid a deintolion yn unig yw sŵn y llythrennau'. Mae'r iaith yn edrych yr un fath ond mae'r ystyron yn bur wahanol.

Mae cymharu iaith arallfydwr â cherddoriaeth hefyd yn nodwedd gyffredin mewn ffuglen wyddonol o'r enghrefftiau cynharaf.¹⁴ Faint ohonom sy'n gyfarwydd â phobl nad ydynt yn deall y Gymraeg yn cyfeirio ati fel iaith 'musical', gan fod clywed iaith estron heb gymorth cyfieithiad yn brofiad tebyg i glywed cerddoriaeth heb eiriau? Mae cerddoriaeth yn iaith, o fath, yn gyfrwng sy'n cyfathrebu â ni drwy dynnu ar ein teimladau ac emosiynau drwy rhythmau a synau'n unig. Yn Dinas y Lloer W.J.Jones, clyw cymeriadau'r Ddaear gerddoriaeth rhyfedd: 'Miwsig gwahanol i fiwsig unrhyw wlاد y gwn i amdani. Ac 'r wy'n clywed siarad hefyd. Siarad od, ysmala...' fedra i ddim... 'fedra i ddim ei ddisgrifio'.¹⁵ Nid oes modd eu disgrifio gyda geiriau, dim ond yng nghyd-destun eu sŵn, fel y gwna treniant Samuel Barnes fel rhan o brofiad Dyfodiaith.

Yn Y Ddynes Ddirgel gan Mihangel Morgan, mae Marged Cadwaladr yn cofnodi iaith yr arallfydwyr sy'n ei chwilio: 'Paci-ti-pawcw-pawcw-icitipac' / 'Hipica-paw-paca-epaw'.¹⁶ Fodd bynnag, mae'r arallfydwyr yn troi i roi teclyn cyfieithu ar waith: 'Ddrwg gin i am hynna. 'Di anghofio switsio'r teclyn cyfieithu ymlaen, 'sti...' ¹⁷ Cyferbynna tafodiaith yr arallfydwyr, sy'n deillio o ogledd-orllewin Cymru, yn drawiadol gyda thaefodiaith ddeheuol Marged — er eu bod oll yn siarad yr un iaith, mae'r dafodiaith yn pwysleisio eu harwahanwydd. Dyma, cyn tanio'r blwch, weld arlliw o iaith arallfydol, ond yn ôl Ria Cheyne: 'The created languages of science fiction, in contrast [to a constructed language], do not serve the purposes of practical communication.'¹⁸ Cyfres o synau yw eu hiaith a'u henwau — y Pisdäon (gan wneud defnydd o'r acenu anghyfarwydd) a'r Swnthws a Sbalwcír anifail anwes — yn gwneud dim synnwyr ieithyddol.

Gan ddychwelyd at y blwch cyfieithu hwnnw, sy'n fotiff ddigon cyfarwydd mewn ffuglen wyddonol — sylwn mai blwch cyfieithu sydd hefyd ar waith yn Ar Blaned Arall Dafydd Meirion. Fel yn Dinas y Lloer, disgrifir iaith y Delta Nocsus fel 'cerddoriaeth', cyn i'r teclyn gael ei ddefnyddio.¹⁹ Tynn y teclynnau cyfieithu ni yn ôl at ddechrau'r darn hwn. Heb declyn cyfieithu, clywn ddim ond sŵn, rhythm geiriau. Rhan o hud albymau fel Le Kov, albwm Gernyw y gantores Gwenno Saunders yn 2017, a phrofiadau prin yn gwrando ar yr ieithoedd Celtaidd eraill yw gallu ymgolli mewn byd arall a derbyn nad ydyn nî'n deall gan hefyd glywed cysylltiadau rhwng geiriau Celtaidd, sy'n aml yn rhannu'r un gwraidd. I raddau, dyma hud Dyfodiaith. Y gallu i glywed fflachiau cyfarwydd ymmsg geiriau sydd wedi mynd yn angof a geiriau eraill sydd wedi cael eu creu'n fwriadol. Dyma egwyddor sy'n parhau'n rhan greiddiol o'r profiad o ddarllen ffuglen wyddonol — yn enwedig mewn iaith leiafrifol fel y Gymraeg. Mae geiriau'n gorfol cael eu creu i ddisgrifio'r profiad mewn modd sy'n gorfol cael ei bwysleisio'n amlycach nag mewn llenyddiaeth realaidd.

Creu geiriau o'r newydd

Mae 'neologisms' yn britho'r genre ymhob iaith. Yn y Saesneg, sonia Peter Stockwell bod creu geiriau cyfansawdd a thalffyrro geiriau eraill yn gyffredin: '[The words] retain a sense of a familiar phenomenon modified in the imagined world'.²⁰ Yn y Gymraeg, creodd Urien Wiliam restr o 52 gair i'w defnyddio ar gyfer ysgrifennu ffuglen wyddonol,²¹ ond mae'n anodd gweld a dylanwadwyd y rhestr o gwbl ar waith awduron eraill. Yn ogystal, roedd nifer ohonynt yn efelychu tueddiadau Saesneg i ddefnyddio gair cyfansawdd. Ac mae nifer o eiriau Cymraeg yn dal i gael eu bathu ar gyfer nofelau ffuglen wyddonol. Un gair sy'n parhau'n boenus o absennol yw 'alien'. Nid oes yna'r un gair syml, hawdd i'w droi ato fel sy'n bodoli yn y Saesneg. Mae pob dim yn dibynnu ar ei gyd-destun. Mae'r geiriadur yn cynnig 'estronwr' fel gair, ond mae hynny'n ysgogi ymdeimlad senoffobig ar adegau. Er bod Emry Wyn Roberts, awdur Sibrydion o Andromeda, wedi gwneud dim ond sillafu'r gair Saesneg yn Gymraeg — 'êliyn'²² — defnyddiwn 'arallfydwyr' fel term yma, gan gyflwyno portread pendant o'r alien fel rhywun o fyd arall.

Mae llythrenw fel UFO hefyd yn peri problem. Ymmsg y 52 o enwau gynigiodd Wiliam, cyfeiriad at yr unidentified flying object fel 'hedbeth annabyddedig'.²³ Cyn hynny yn 1964, cynigiodd Islwyn Ffowc Elis 'anesboniedig' fel term am unidentified i ddisgrifio ymddangosiad celoedd arallfydol yn y stori 'Y Golau Estron' yn 1964, gyda gwyddonwyr y nofel yn ystyried y term yn 'iaith ychydig yn fwy gwyddonol'.²⁴ Erbyn yr 1990au, mae gwaith Mihangel Morgan yn defnyddio 'hedbeth anesboniadwy' i ddisgrifio obsesiwn Marged Cadwaladr yn y stori fer 'Nid yw Pawb yn Gwirioni'r Un Fath'.²⁵ 'Peth hedegog anhysbys' yw un o gynigion

Geiriadur yr Academi, gydag 'iwffo' hefyd yn opsiwn.²⁶ Wrth gwrs, mae'r gair 'iwffo' yn gwneud ond efelychu sŵn UFO, yn hytrach na thrafod ei ystyr. Mae'r gyfrol ffeithiol Yr Ymwelwyr, sy'n olrhain gwaith ymchwil Richard Foxhall i'r maes yn italeiddio'r ymadrodd Saesneg.²⁷ Pwysleisiaf eto nad ieithydd mohonof, ond mae bwrw cipolwg sydyn ar ymgeisiau awduron i drosi'r term 'unidentified flying object' yn dangos nad yw bathu term addas ar gyfer y ffenomen yn y Gymraeg yn hawdd, heb sôn am gyrraedd consensws rhwng amryw awduron ynglyn â pha air sydd orau i'w ddefnyddio.

Mae edrych ar talfyriadau Saesneg yn codi'r un cwestiwn a wnaeth gyfieithiadau o'r term UFO. A oes modd defnyddio 'ffug-wydd' mewn trafodaethau cyffredinol o'r maes, fel y mae nifer yn cyfeirio at 'sci-fi' mewn cyd-destunau prif ffrwd? Yn academaidd, tuedd i ddefnyddio 'SF' i gyfeirio at science fiction... Os felly, beth am FW neu FFW neu FfW? Mae llythrennau dwbl y wyddor Gymraeg yn peri broblem wrth greu lythrenw. Gan gyfeirio'n ôl at yr hedbeth anesboniadwy/anesboniedig, oni fyddai HA yn edrych ar y ddalen fel chwerthiniad bach coeglyd petawn yn ei dalfyrru'r un ffordd a wnaed yn Saesneg? Sut byddai modd i ddarllenwyr wybod beth yw Ff-W neu H-A tan eu bod yn cael eu ddefnyddio'n gyson, a sawl gwaith sydd angen ei ddefnyddio er mwyn iddo ddod yn air cyffredin? Oes yna gylch dieflig o beidio â thrío bathu geiriau rhag ofn bod neb yn eu deall, a neb yn deall geiriau newydd am nad ydynt yn cael eu defnyddio a'u defnyddio a'u halddefnyddio? A oes yna eiryn o'r Mabinogi neu o'r chwedlau canoloesol y gellid ei defnyddio, ei ailgylchu hyd yn oed, i weddu ar gyfer UFO? Rhywbeth a atgyfodwyd yn laith Bwystron, o bosib? Gallwn hefyd, o weld cynifer o ymgeisiau i gyfieithu'r term alien ac UFO a diffyg consensws amlwg (er gwaethaf ymdrechion Urien Wiliam), weld bod her gan grŵp o bobl sydd eisoes yn cynrychioli niche y siaradwyr (ac yn y cyd-destun llenyddol hwn, darllenwyr) iaith leiafrifol, i greu ieithwedd i grŵp llai fyfth o fewn y niche hwnnw, sef siaradwyr Cymraeg sy'n ymddiddori mewn ffuglen wyddonol. Os ydy hyn yn dod i'r amlwg gyda ffuglen wyddonol, a oes modd edrych ar waith am bynciau eraill, ar genres eraill, ar drafodaethau eraill, a gweld geirfa'n amrywio o destun i destun? A sut, heb wraidd pendant o'r gorffennol na thraddodiad o eiriau a chysyniadau tebyg, mae mynd ati i fathu termau?

Gan gyfeirio eto at 'eiriau gwneud', sut mae gwneud gair? Oes modd plannu geiriau newydd a'u gwyliau'n tyfu cyn meddiannu'r ardd a thyfu'n wylt? Ai drwy hap a damwain, wrth iddo ledu o un lle i'r llall fel iorwg yn dringo wal, wrth i DJ ar orsafr radio genedlaethol gymryd ffansi at y gair — fel a ddigwyddodd gyda hunlun (selfie) — mae geiriau'n dod yn rhan o eirfa ddydd i ddydd siaradwyr? A fydd — ac oes 'na? — ragor o eiriau ar ddyfod? Does dim gair Cymraeg am RANDOM. Nac am GENRE, chwaith. A does 'na ddim gair Saesneg am HIRAETH. A fydd yna fyfth? Beth am ieithoedd eraill â ganddynt eiriau nad oes modd eu cyfieithu? Onid oes yna gysyniadau na fedrir eu cyfieithu?

...ac, o ystyried hynny, a ddylid eu cyfieithu o gwbwl?

(Arall)fydwr

Noda Patrick Parrinder:

'What is most unlikely is that we could expect to meet with aliens on unreservedly equal terms, and still less that we could experience feelings of real community with them; "once an alien, always an alien" may well turn out to be the law of the universe.'²⁸

Gwelwyd hyn gyda thaфodieithoedd gwrthgyferbyniol Marged Cadwaladr a'r arallfydwyr yn Y Ddynes Ddirgel, a'r drwgdybiaeth cyson sydd gan bobl o brofi ieithoedd eraill. Oes yna ffordd o bontio'r bwlch? Er gwaethaf cyflwyno teclynau cyfieithu yn y naratifau uchod, sylwn mai gwneud hi'n haws i'r cymeriadau dynol ddeall yr arallfydwyr sy'n — does dim enghraift o'r bodau dynol yn cyfieithu ar gyfer yr arallfydwyr.

Gan ddyfynu cyngor Russell T. Davies bod pob tudalen o ddeialog yn gyfres o fonologau'n brwydro'n erbyn ei gilydd am sylw, amlygodd Charlie Brooker bod pob sgwrs cael ei thaflu allan i'r gwagle. 'If you think that's depressing, consider this: almost every monologue consists of nothing but the words PLEASE AUTHENTICATE MY EXISTENCE, repeated over and over again, in disguise.'²⁹


O ystyried hynny, oes yna unrhyw un yn gwrando ar ddeialog ein sgyrsiau o ddydd i ddydd? Onid yw'r mwyafrif o'r geiriau sy'n dianc o'n gweflau yn cael eu llyncu a'u hanghofio? A beth am ddarllen? Yn *The Death of the Author*, dywed Roland Barthes bod y darlenydd yn dod at destun gyda'i ddehongliad ei hun, beth bynnag fo bwriad unrhyw awduri.³⁰

I raddau, mae'r broses o greu geiriau, o drafod geiriau, o wthio geiriau ar bobl eraill, yn rhan annatod o'r ymddiddan. Mae yna elfen hunanol i iaith, yn enwedig o fwrr golwg arni drwy sbectol yr ôl-strwythurwr. Daw darlenydd at destun gyda'i syniadau a'i ragdybiaethau personol ac yn gweld themâu a dylanwadau o'i ddewis yntau, ac yn ôl Brooker, mae'r un am wir am rywun sy'n cyfrannu at sgwrs. Os felly, onid yw geirfa'r unigolyn yn ddibynol ar ei brofiadau neu ei phrofiadau hefyd? A oes disgwyl i arlunydd wybod sut i ddisgrifio'r byd ffuglen wyddonol, ac a oes disgwyl i ddarlenydd ffuglen wyddonol allu disgrifio'r byd celfyddydol?

Wrth edrych ar Dyfodiaith ac ar waith Paul Eastwood yn gyffredinol, daw ei le unigryw yntau fel siaradwr Cymraeg mewn ardal lle mae'r Gymraeg yn brin i'r amlwg. Iddo yntau, mae ei iaith yn arallfydol. Nid yw ei iaith ynghlwm â'i brofiad o ddydd i ddydd. O edrych eto ar 'alien' fel gair, daw 'alienation' i'r meddwl. Mae'r profiad o fod yn 'alienated' (o 'arallu', 'trosglwyddo', 'estroniaethu') yn rhan annatod o fodolaeth Paul Eastwood fel unigolyn mewn cymuned ddi-Gymraeg, fel artist mewn byd sy'n rhemp o feirniadaeth chwyrn yn erbyn y celfyddydau... gyda'r profiad o deimlo mor estron ac fel Arall yn rhan annatod o naratifau ffuglen wyddonol, nid oes rhyfedd i Paul Eastwood droi at y dyfodol i fynegi ei hun ac archwilio ei berthynas gydag iaith. Y cwestiwn — ac o bosib, y broblem — sy'n rhan greiddiol o Dyfodiaith yw a oes angen rywun arall, ail berson, i glywed, i ddarllen, ac i ddeall er mwyn i iaith fodoli?

- 1 Walter E. Meyers, 'Aliens and Linguists: Language Study and Science Fiction' (Athens: University of Georgia Press, 1980), t.1.
- 2 Ceridwen Lloyd Morgan, 'Broken Words in a Ruined Museum: 'Segrgrair' by Paul Eastwood', *Planet*, 226 (2017), t.74. (74-7).
- 3 Paul Eastwood, 'Dyfodiaith: Paul Eastwood yn Sgwrsio â'r Stamp', *Y Stamp*, 6 (2018), t.6.
- 4 Meyers, t.69.
- 5 Lloyd Morgan, t.77.
- 6 Ria Cheyne, 'Created Languages in Science Fiction', *Science Fiction Studies*, 35 (2008), t.394.
- 7 Islwyn Ffowc Elis, 'Wythnos yng Nghymru Fydd' (3ydd arg.; Llandysul: Gwasg Gomer, 2007), t.17.
- 8 Ibid. t.33.
- 9 Ibid. t.392.
- 10 Hugh Bevan (gol.) 'Gohebiaeth Syr Meurig Grynswth' (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1948), tt.21-2.
- 11 Ibid. t.22.
- 12 Ibid. t.22.
- 13 Ibid. t.22.
- 14 Meyers, 'The use of music for communications (the history of science fiction)', t.71.
- 15 W.J.Jones, *Dinas y Lloer* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1961), t.19.
- 16 Mihangel Morgan, *Y Ddynes Ddirgel* (Talybont: Y Lolfa, 2001), t.111.
- 17 Ibid. t.111.
- 18 Cheyne, t.389.
- 19 Dafydd Meirion, 'Ar Blaned Arall' (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2004), t.39.
- 20 Peter Stockwell 'Invented Language in Literature', *Encyclopedia of Language & Linguistics*, 6 (2006), t.4.
- 21 Urien William, 'Termau Ffugwydonol', *Barn*, 264 (1985), t.2.
- 22 Emrys Wyn Roberts, 'Sibrydion o Arndromeda' (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2007), tt.12-3.
- 23 William, 'Termau Ffugwydonol', t.2.
- 24 Islwyn Ffowc Elis, 'Y Golau Estron', *Y Gwyddonydd*, 2 (1964), t.88.
- 25 Mihangel Morgan, 'Hen Lwybr a Storiau Eraill' (Llandysul: Gwasg Gomer, 1993).
- 26 Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones, 'Geiriadur yr Academi' (6ed arg.; Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), t.1550.
- 27 Richard Foxhall, 'Yr Ymwelwyr' (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2001), t.1.
- 28 Patrick Parrinder, 'The Alien Encounter: Or, Ms Brown and Mrs Le Guin', *Science Fiction Studies*, 6 (1979), t.47.
- 29 Charlie Brooker, 'Has Every Conversation in History Been Just a Series of Meaningless Beeps?', *The Guardian*, 28 April 2013, <https://www.theguardian.com/commentisfree/2013/apr/28/every-conversation-meaningless-beeps-charlie-brooker> [Cychwyd 18 Rhagfyr 2018].
- 30 Gweler y bennod 'The Death of the Author' yn Roland Barthes, 'Image, Music, Text', cyf. Stephen Heath (London: Fontana Press, 1977).





Paul Eastwood: Dyfodiaith

Published on the occasion of the exhibition at
Chapter Arts Centre
8 February — 10 March 2019

Printed in an edition of 500

Texts by Emily Butler & Miriam Elin Jones
Edited by Paul Eastwood & Hannah Firth
Design by Nelmes Design

Publication © the artist & Chapter (Cardiff) Ltd
Texts © Emily Butler & Miriam Elin Jones
All images © the artist

All rights reserved. No part of this publication
may be reproduced, stored in a retrieval system
or transmitted in any form or by any means
electrical, mechanical or otherwise without first
seeking the permission of the copyright owners
and publisher.

Paul Eastwood: Artist
Llŷr Titus: co-script writer and language
researcher
Samuel Barnes: Composer
Melangell Dolma: Actor
Gwenno Elan Healy: Singer 1
Lisa Angharad: Singer 2
Kristen Miller: Cello 1
Rachel Waters: Cello 2
Stevie Eastwood: Costumes Fabricator
Eilir Pierce: Filmmaker
Joshua Marshall: Visual effects animator
Jane Lalljee: Lighting Designer
Eleni Kyriacou: Makeup and Hair Artist
Lois Angharad Roberts: Translation
Wyn Bowen Harries: Actor

Additional thanks to:

Hannah Firth, Cathy Boyce, Catherine Angle,
Iolo Williams, Bedwyr Williams, Professor Jerry
Hunter, Professor David Crystal, John Hardy,
Gillian Eastwood, Dean Woolford, William
Roberts, Martin McCabe, Hayley Dixon, Arts
Council Wales, Focal Point Gallery, WARP and
G39, Joe Hill, Pontio, Elen Bonner, Claire Mitten,
Glyndŵr University, Bangor University, Tŷ Pawb,
James Harper, Laura Bowen, Louise Hobson,
Oriel Davies, Susan Liggett, Paul R Jones, Iona
Rhys Cooke, Y Stamp, Elen Mai Nefydd, The Vic,
Wrexham, Gwen Ellis, Iwan Bala

Cyhoeddwyd ar achlysur yr arddangosfa yng
Nghanolfan Gelfyddydol Chapter
8 Chwefror — 10 o Fawrth 2019

Cyhoeddwyd mewn argraffiad o 500


Testunau gan Emily Butler a Miriam Elin Jones
Golygyd gan Paul Eastwood a Hannah Firth
Dylunio gan Nelmes Design

© cyhoeddiad yr artist a Chapter (Caerdydd) Cyf.
© testunau Emily Butler a Miriam Elin Jones
Holl ddelweddu © yr artist

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu, cadw
mewn system adfer na throsglwyddo unrhyw
ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw fodd boed
yn fecanyddol, yn electronig neu fel arall heb
yn gyntaf gael caniatâd deiliad yr hawlfraint a'r
cyhoeddwr.

Paul Eastwood: Artist
Llŷr Titus: cyd-ysgrifennwr script ac ymchwilydd
ieithyddol
Samuel Barnes: Cyfansoddwr
Melangell Dolma: Actor
Gwenno Elan Healy: Cantores 1
Lisa Angharad: Cantores 2
Kristen Miller: Cello 1
Rachel Waters: Cello 2
Stevie Eastwood: Gwneuthurwr Gwisgoedd
Eilir Pierce: Gwneuthurwr Ffilm
Joshua Marshall: Animeiddiwr Effeithiau
Gweladwy
Jane Lalljee: Dylunydd Goleuo
Eleni Kyriacou: Artist Gwallt a Cholur
Lois Angharad Roberts: Cyfeithi
Wyn Bowen Harries: Actor

Gyda diolch ychwanegol i:
Hannah Firth, Cathy Boyce, Catherine Angle,
Iolo Williams, Bedwyr Williams, Yr Athro Jerry
Hunter, Yr Athro David Crystal, John Hardy,
Gillian Eastwood, Dean Woolford, William
Roberts, Martin McCabe, Hayley Dixon, Cyngor
Celfyddydau Cymru, Focal Point Gallery, WARP a
G39, Joe Hill, Pontio, Elen Bonner, Claire Mitten,
Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Bangor, Tŷ Pawb,
James Harper, Laura Bowen, Louise Hobson,
Oriel Davies, Susan Liggett, Paul R Jones, Iona
Rhys Cooke, Y Stamp, Elen Mai Nefydd, The Vic,
Wrecsam, Gwen Ellis, Iwan Bala



CHAPTER



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

**ARENNIR GAN
Y LOTERI**
LOTTERY FUNDED



PRIFFYSOL
BANGOR
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
Glyndŵr | Wrecsam
UNIVERSITY

